Cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru

Mae cymwysterau TGAU yn newid – yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU

A* **i G:** mae cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn parhau i dderbyn gradd **A* to G**

A **Asesu:** mae gan gymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru ddulliau asesu wedi'u hatgyfnerthu a chynnwys wedi'i ddiweddaru

B **Beth am Loegr?:** 9 i 1 fydd y drefn raddio yn Lloegr

C **Corff dyfarnu:** darperir cymwysterau TGAU sydd wedi'u diwygio ar gyfer Cymru gan CBAC

D **Dwyieithog:** gellir astudio cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn Gymraeg neu yn Saesneg

E **Elfen o ddewis:** lle nad yw pynciau TGAU wedi cael eu diwygio yng Nghymru, gall myfyrwyr astudio'r rheini a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr

F **Fel rhannau eraill o'r DU:** mae cymwysterau TGAU yng Nghymru yn gyfwerth â'r rhai a gaiff eu hastudio mewn rhannau eraill o'r DU

G **Graddio:** mae prifysgolion yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng strwythurau graddio yng Nghymru a Lloegr.

Beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU?

Mae cymwysterau TGAU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn cael eu diwygio. Mae hyn yn golygu y bydd y cymwysterau TGAU a gaiff eu dyfarnu ym mhob un o'r tair gwlad hyn ychydig yn wahanol yn y dyfodol.

Un o'r gwahaniaethau mwyaf amlwg fydd y graddau y bydd disgyblion yn eu cael.

- Bydd cymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn cadw'r drefn graddau A* i G gyfredol
- Mae Lloegr yn symud i drefn graddau 9 i 1
- Mae cymwysterau TGAU yng Ngogledd Iwerddon yn symud i drefn graddau A* i G newydd sy'n cynnwys C*.

Mae'n bwysig cofio na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar werth cymwysterau TGAU.
Mae cymwysterau TGAU a gaiff eu hastudio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn gymaradwy.

Bydd y cymwysterau a gaiff eu hastudio ym mhob un o'r tair gwlad yn dal i fod o'r un maint ac yn hygyrch i'r un ystod o fyfyrwyr â'r rhai y maent yn eu disodli.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gymwysterau TGAU ar ein gwefan
www.cymwysteraucymru.org

Strwythurau graddio TGAU o 2017

Cymru	Lloegr
A*	9
	8
A	7
B	6
	5
C	4
D	3
E	2
F	
G	1
U	U

ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222
@cymwysterau_cym